

Goblygiadau ariannol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Tachwedd 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Goblygiadau ariannol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Tachwedd 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Contents

Argymhellion ac Casgliadau	5
1. Cyflwyniad.....	7
2. Diben y Bil a'r angen amdano	9
3. Costau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat	13
4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.....	21

Argymhellion ac Casgliadau

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diweddararu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn rhoi costau enghreifftiol sy'n seiliedig ar y data cyfredol/y rhagolwg o ran chwyddiant. Tudalen 12

Argymhelliad 2. O ystyried yr argyfwng chwyddiant presennol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys chwyddiant wrth gyfrifo'r costau posibl sy'n codi mewn Biliau yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu'r gwir gostau a ysgwyddir. Tudalen 12

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gellid bod wedi ceisio modelu'r senarios posibl a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, megis defnyddio rhagor o ddeunyddiau sy'n cael eu caffael yn gynaliadwy, staff yn cael rhagor o hyfforddiant a gwell telerau ac amodau cyflogaeth. Tudalen 15

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i weld a ddysgwyd unrhyw wersi ynghylch yr effaith o ran cost a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau hynny..... Tudalen 15

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddadansoddi ac amcangyfrif costau a manteision y Bil cyfan unwaith y bydd y data perthnasol ar gael, a dylid cynnwys y wybodaeth hon yn yr adolygiad a gaiff ei lunio ar ôl gweithredu'r Bil..... Tudalen 15

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gofynion ychwanegol a roddir ar fusnesau mewn perthynas â'r ddyletswydd caffael yn gymesur er mwyn peidio â throsglwyddo unrhyw gostau cynyddol ymlaen i gwsmeriaid, a bod yr arweiniad statudol perthnasol yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen i staff caffael a staff sy'n rheoli contractau yng Nghymru..... Tudalen 17

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r adolygiad ôl-weithredu gynnwys nifer y cyrff cyhoeddus a'r cyrff preifat sy'n manteisio ar y cyflog byw gwirioneddol o ganlyniad i'r Bil hwn. Tudalen 17

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth yn benodol i fusnesau bach a chanolig i'w galluogi i gymryd rhan mewn contractau. Tudalen 20

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad pellach o'r modd y mae'r ddyletswydd rheoli contractau adeiladu yn effeithio ar fusnesau bach a chanolog..... Tudalen 20

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynglŷn â chanlyniad yr adolygiad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i bod yn rhoi manylion am unrhyw gyllid ychwanegol y bydd ei angen ar gyfer y Comisiynydd..... Tudalen 24

Argymhelliad 11. O ystyried prinder y data sydd ar gael ynghylch canlyniadau ariannol y Bil ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi asesiad canol tymor yn amlinellu'r costau ariannol a ysgwyddwyd oherwydd bod y Bil wedi cael ei weithredu. Tudalen 25

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn. Tudalen 12

Casgliad 2. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach. Tudalen 12

1. Cyflwyniad

- 1.** Cyflwynwyd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)¹ (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol² (y Memorandwm), gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddio, a gyflwynwyd gan Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol (y Dirprwy Weinidog) ar 7 Mehefin 2022.
- 2.** Yr un diwrnod, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn³.
- 3.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:
 - sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol;
 - dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig (neu os nad oes undeb llafur cydnabyddedig) cynrychiolwyr eraill o'u staff, wrth bennu eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf 2015);
 - dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf 2015;
 - diwygio adran 4 o Ddeddf 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' yn y nod presennol ynghylch "Cymru lewyrchus";
 - dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried defnyddio prosesau caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol o safbwynt cymdeithasol, i osod amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, ac i gyhoeddi strategaeth gaffael;
 - gofyniad i gyrff cyhoeddus penodol gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau yr eir ar drywydd canlyniadau cyfrifol o safbwynt cymdeithasol drwy gadwyni cyflenwi;

¹ Llywodraeth Cymru, [y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\)](#)

² Llywodraeth Cymru, [y Memorandwm Esboniadol](#)

³ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, [7 Mehefin 2022](#)

- dyletswyddau adrodd i'w gosod ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r ddyletswydd caffael.

4. Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil ar 30 Mehefin 2022⁴, gan:

- Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
- Jo Salway, Cyfarwyddwr, Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr, Partneriaeth Gymdeithasol
- Sue Hurrell, Pennaeth Caffael Gwaith Teg

5. Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a oedd yn gyfrifol am graffu ar y Bil o safbwynt polisi⁵.

6. Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil yn unol â materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.⁶

⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Diben y Bil a'r angen amdano

Crynodeb o'r costau

7. Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu hasesu dros gyfnod arfarnu pum mlynedd rhwng 2023-24 a 2027-28. Mae'r Asesiad yn dangos y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo cyfanswm costau o £3.2 miliwn dros y pum mlynedd, gyda'r sector cyhoeddus yn ysgwyddo £20.8 miliwn. Cyfanswm costau'r Bil dros y cyfnod hwnnw yw £30.4 miliwn.⁷

Tabl 1 Costau sy'n gysylltiedig â'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus rhwng 2023-24 a 2027-28

Disgrifiad o'r gost	Cost (£,000)
Llywodraeth Cymru	
Costau trosiannol	242
Costau rheolaidd	2,910
Cyfanswm costau	3,152
Sector cyhoeddus	
Costau trosiannol	131
Costau rheolaidd	20,651
Cyfanswm costau	20,782
Sector preifat	
Costau rheolaidd	6,466
Cyfanswm costau'r Bil	30,399

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, *Asesiad Effaith Rheoleiddiol*, y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), Mehefin 2022

8. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y Bil yn gosod fframwaith ar gyfer arfer da o ran gweithio mewn partneriaethau cymdeithasol, gwaith teg a'r canlyniadau yn sgil caffael cymdeithasol gyfrifol. Roedd hi'n disgwyl y byddai nifer o'r cyrff a gwmpesir gan y Bil eisoes yn ymgymryd â nifer o'r camau sy'n gysylltiedig â'r Bil ac y byddai'r rhan fwyaf yn gallu talu'r

⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 51

costau. Felly, nid oedd y Dirprwy Weinidog yn disgwyl y byddai angen unrhyw gymorth ariannol ychwanegol.⁸ Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog nad oedd y Llywodraeth wedi deddfu ar gaffael yng Nghymru o'r blaen ac felly bod angen iddi wneud hyn er mwyn sicrhau cysondeb ac i wella canlyniadau. Tynnodd sylw at yr heriau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hwynebu oherwydd y diffyg data sydd ar gael a dywedodd y bydd y ddeddfwriaeth hon yn caniatáu i'r Llywodraeth gael y wybodaeth sydd ei hangen arni er mwyn datblygu canlyniadau gwell.⁹

9. Dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog y byddai canlyniadau'r ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â'r nodau llesiant ac yn canolbwyntio'n fawr ar ddiogelu'r amgylchedd yn ogystal â buddion economaidd lleol.¹⁰

Chwyddiant

10. Mae'r Llyfr Gwyrdd a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi yn rhoi arweiniad ar sut i arfarnu a gwerthuso polisiau a rhaglenni. O ran addasu ar gyfer chwyddiant, mae'n nodi:

*"Costs and benefits in appraisal of social value should be estimated in 'real' base year prices (i.e. the first year of the proposal). This means the effects of general inflation should be removed."*¹¹

11. Ym mis Mai 2022, saethodd lefel chwyddiant y DU i 9 y cant¹², sef y lefel uchaf ers 40 mlynedd. Mae Adroddiad Polisi Ariannol Banc Lloegr (Awst 2022) yn nodi:

*"CPI inflation is expected to rise more than forecast in the May Report, from 9.4% in June to just over 13% in 2022 Q4, and to remain at very elevated levels throughout much of 2023, before falling to the 2% target two years ahead."*¹³

12. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog y byddai'r costau sy'n cael eu cyflwyno yn y Bil yn destun chwyddiant, y disgwylir iddo gynyddu yn y blynyddoedd i ddod. Aeth yn ei blaen i ddweud:

"...there are a lot of unknowns in terms of whether budgets will rise in line with that, and around staff costs and so on, but it is something that we are

⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 145, 30 Mehefin 2022

⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 30 Mehefin 2022

¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 166, 30 Mehefin 2022

¹¹ [Trysorlys Ei Fawrhydi, Llyfr Gwyrdd](#)

¹² The Guardian, [UK inflation hits 40-year high of 9% as cost of food and energy soars](#)

¹³ Banc Lloegr, [Adroddiad Polisi Ariannol, Awst 2022](#)

*alive to, and at this point, we don't think it would impact on being able to deliver the legislation, essentially."*¹⁴

Safbwynt y Pwyllgor

13. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai nod y Bil yw sicrhau gwaith partneriaeth gymdeithasol da a chanlyniadau caffael cymdeithasol gyfrifol, gan ganolbwyntio ar waith amgylcheddol a gwaith teg drwy gadwyni cyflenwi. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Dirprwy Weinidog y bydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn gallu amsugno'r costau fel rhan o'u cyllidebau presennol ac na ddisgwylir y bydd angen unrhyw gymorth ariannol ychwanegol.

14. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd chwyddiant cynyddol yn golygu y bydd yn rhaid i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ysgwyddo costau ychwanegol ar hyd y cyfnod arfarnu pum mlynedd. Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi yn nodi y dylid amcangyfrif costau gan ddefnyddio prisiau 'gwirioneddol' y flwyddyn sylfaen, sy'n golygu y dylid dileu effeithiau chwyddiant cyffredinol, ac mae'r Pwyllgor yn nodi hynny. Serch hynny, o ystyried yr argyfwng presennol lle y mae lefel chwyddiant ar ei uchaf ers 40 mlynedd a'r ansicrwydd ynghylch a fydd grant bloc Llywodraeth Cymru yn cynyddu ar yr un lefel, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod wedi ystyried chwyddiant cynyddol wrth gyfrifo'r costau posibl sy'n deillio o'r Bil.

15. Un o brif bryderon y Pwyllgor drwy gydol yr adroddiad hwn yw'r diffyg data sydd ar gael i amcangyfrif y goblygiadau posibl o ran costau, budd-daliadau ac arbedion. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cynnwys llawer o 'gostau anhysbys', megis effeithiau'r ddarpariaeth cyflog byw gwirioneddol. Rydym yn derbyn ei bod yn anodd i Lywodraeth Cymru ddadansoddi'r costau a'r manteision heb fod ganddi linellau sylfaen o ran cost, ond yn sgil hynny, bu'n anodd i'r Pwyllgor asesu goblygiadau ariannol y Bil. Yn adroddiad y Pwyllgor, 'Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)', argymhellodd y Pwyllgor:

*"bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith pellach yn dadansoddi ac yn amcangyfrif buddion cost y Bil. Dylid diweddarw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y buddion hyn, sut y cânt eu dadansoddi a phryd y rhagwelir y cânt eu cyflawni."*¹⁵

16. Dyma'r ail Fil i gael ei gyflwyno yn y Senedd a dyma'r eildro i'r Pwyllgor orfod galw ar Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith pellach i ddadansoddi ac amcangyfrif costau a

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 280, 30 Mehefin 2022

¹⁵ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

manteision Bil. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys sut y bydd costau'n cael eu dadansoddi a phryd y disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo fel mater o drefn.

17. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion yn yr adroddiad hwn o ran darparu rhagor o wybodaeth ariannol, ac os bydd newidiadau sylweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn.

Casgliad 2. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn rhoi costau enghreifftiol sy'n seiliedig ar y data cyfredol/y rhagolwg o ran chwyddiant.

Argymhelliad 2. O ystyried yr argyfwng chwyddiant presennol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys chwyddiant wrth gyfrifo'r costau posibl sy'n codi mewn Biliau yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu'r gwir gostau a ysgwyddir.

3. Costau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat

Y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol

18. Mae £29 miliwn o gostau sy'n deillio o'r Bil yn gysylltiedig â sefydlu dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ysgwyddo costau o £20.5 miliwn a £6.5 miliwn yn y drefn honno.¹⁶

19. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodir y "gallai unrhyw gostau a ysgwyddir gan y sector preifat godi o ddisgwyliad uwch i gyflawni canlyniadau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol".¹⁷ Byddai enghreifftiau posibl yn cynnwys:

- defnyddio rhagor o ddeunyddiau sy'n cael eu caffael yn gynaliadwy;
- staff yn cael rhagor o hyfforddiant a gwell telerau ac amodau cyflogaeth;
- amser staff pan fyddant yn mynd i sesiynau hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol a allai fod ar gael drwy Busnes Cymru.¹⁸

20. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro ei bod yn anodd amcangyfrif y costau hyn, gan nad yw'n bosibl gwybod faint o fusnesau sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau neu waith ar hyn o bryd i'r awdurdodau contractio a gwmpesir gan y Bil, faint ohonynt y byddai angen iddynt ganolbwyntio ar faterion penodol, i ba raddau y byddent am fanteisio ar yr hyfforddiant, sesiynau ymwybyddiaeth neu gymorth un-i-un sydd ar gael, neu faint o gyflogaion (ac ar ba lefel) y byddai'n ofynnol iddynt fynychu.

21. Pan ofynnwyd a aed ati i geisio modelu'r senarios posibl a roddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, er mwyn pennu'r costau posibl, dywedodd y Dirprwy Weinidog, gan fod y Bil yn cwmpasu 'ystod enfawr o wahanol fathau o gyrff cyhoeddus', nad oedd ganddi'r wybodaeth honno, y data hynny, i fesur y llinellau sylfaen ar hyn o bryd.¹⁹

22. Ychwanegodd swyddog y Dirprwy Weinidog:

"...modelling is possible in individual cases and it might be possible to take one category and look at it across the board once we start to have some data, but we just don't have that information available to us at the moment."

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 52

¹⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 100

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 100

¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 169, 30 Mehefin 2022

*And it's not just in Wales. The Scottish Government have had a duty on sustainable procurement for a number of years, and when you look at the Scottish Government's summary report of procurement outcomes, there's very little that actually reports on the outcomes in the figures and the numbers. A lot of it is still very input focused: the number or proportion of bodies that are including particular questions, or covering community benefits. So, I think we've got an opportunity to address that through the collection of really good data, but we aren't there at the moment."*²⁰

23. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y gallai gweithredu dyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol arwain at fanteision ariannol sylweddol:

*"Gallai'r manteision i fusnesau a sefydliadau mewn cadwyni cyflenwi fod yn sylweddol mewn sawl ffordd, yn cynnwys manteision ariannol drwy well cynhyrchiant staff, gwell gwasanaeth a mwy o werthiannau ac ati. Mae'r manteision i Gymru yn y tymor hir hefyd yn amhosibl eu mesur ond yn debygol o fod yn sylweddol, o ystyried graddfa'r gwariant caffael yng Nghymru bob blwyddyn."*²¹

24. Wrth egluro pam nad oedd dadansoddiad costau a manteision wedi ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

*"This goes back to what we've just been touching on around data. Without having those cost baselines, it's nearly impossible to carry out a cost-benefit analysis, especially when you're talking about—. We were just talking in terms of global issues, global responsibility, if the aims are to reduce exploitation and environmental degradation overseas, things that are going to be experienced in the future, reducing health and income inequalities. So, we recognise the series of challenges in terms of how we make these calculations apply right across all of the well-being categories in the Bill. We will hopefully be able to use that enhanced data collection to work out a cost-benefit analysis in particular cases, or with a particular focus on expenditure."*²²

²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 30 Mehefin 2022

²¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 101

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 177, 30 Mehefin 2022

Safbwynt y Pwyllgor

25. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw costau ac arbedion wedi eu meintoli yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Clywsom gan y Dirprwy Weinidog ei bod yn anodd amcangyfrif y wybodaeth hon am nad oedd llawer o ddata ar gael. Rydym yn derbyn y gallai'r data fod yn gyfyngedig oherwydd natur eang y Bil hwn a chymhlethdod cadwyni cyflenwi byd-eang. Serch hynny, rydym wedi mynegi ein barn sawl gwaith y dylai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a manteision i'n galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gellid bod wedi ceisio modelu'r senarios posibl a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, megis defnyddio rhagor o ddeunyddiau sy'n cael eu caffael yn gynaliadwy, staff yn cael rhagor o hyfforddiant a gwell telerau ac amodau cyflogaeth.

26. O ystyried sylwadau'r Dirprwy Weinidog bod Llywodraeth yr Alban wedi wynebu materion tebyg wrth adrodd am ganlyniadau caffael, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i chyfoedion yn yr Alban i weld a ddysgwyd unrhyw wersi ynghylch yr effaith o ran cost. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i asesu'r costau i gyrff cyhoeddus a phreifat sy'n ymwneud â'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o gostau, i'w gynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i weld a ddysgwyd unrhyw wersi ynghylch yr effaith o ran cost a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau hynny.

27. Rydym yn falch o glywed y bydd casglu data yn flaenoriaeth yn y ddeddfwriaeth hon a bod y Dirprwy Weinidog wedi ymrwmo i broses werthuso barhaus gyda rhanddeiliaid, i wella ei dealltwriaeth er mwyn meintoli'r manteision. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai arbedion costau a meintoli manteision fod yn elfen allweddol o'r broses arfarnu opsiynau ac y dylent ategu'r broses o wneud penderfyniadau. Oherwydd hynny, dylai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys dadansoddiad o gostau a manteision, ac mae angen osgoi'r lefel o ddiffyg gwybodaeth a welir yn y Bil hwn mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddadansoddi ac amcangyfrif costau a manteision y Bil cyfan unwaith y bydd y data perthnasol ar gael, a dylid cynnwys y wybodaeth hon yn yr adolygiad a gaiff ei lunio ar ôl gweithredu'r Bil.

Costau cynigion a'r cyflog byw gwirioneddol

28. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodir mai "un o ganlyniadau tebygol canolbwyntio mwy ar ddeilliannau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol...fyddai cynnydd mewn prisiau cynigion".²³

29. Mae'n nodi y byddai hyn yn wir os rhoddir gofynion ychwanegol ar fusnesau heb ystyriaeth ofalus i sicrhau bod ceisiadau'n gymesur ac yn canolbwyntio ar feysydd o risg uwch.²⁴

30. Fodd bynnag, nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddai "datblygu canllawiau statudol o ansawdd uchel, a darparu cymorth i staff caffael a rheoli contractau ledled Cymru, yn hollbwysig o ran sicrhau manteision yn y modd mwyaf costeffeithiol."²⁵

31. Gan ganolbwyntio'n gynyddol ar Waith Teg, byddai mabwysiadu'r cyflog byw gwirioneddol i raddau mwy mewn cadwyni cyflenwi yn arwain at ysgwyddo cost ychwanegol debygol arall. Nodir yn y RIA nad yw'n bosibl "rhagfynegi'r cynnydd tebygol yn nifer y bobl y mae eu cyflog yn codi o ganlyniad i'r Bil drafft hwn, felly nid oes modd mesur yr effeithiau."²⁶

32. Er na all Llywodraeth Cymru roi mandad o ran talu'r cyflog byw gwirioneddol, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai hi'n disgwyl gweld cynnydd mewn achrediadau cyflog byw gwirioneddol a bod hynny'n un ffordd y byddai arferion cyflogaeth yn gwella yn sgil y ddeddfwriaeth hon.²⁷ Aeth ymlaen i ddweud:

*"...when people are paid the real living wage, that does bring economic benefits not just to them, but the communities in which they live and spend their money as well. So, we'll need to consider in which ways we might measure any changes and report them as part of the annual review process."*²⁸

33. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y Dirprwy Weinidog wedi ystyried o gwbl a fyddai cynnydd o ran y dreth incwm sy'n cael ei chynhyrchu yng Nghymru, os bydd mwy o bobl yn cael y cyflog byw gwirioneddol. Esboniodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn anodd cyfrifo hyn am fod y dreth incwm yn seiliedig ar god post, a gallai busnes neu sefydliad fod yn defnyddio cod post eu prif

²³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 93

²⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 93

²⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 93

²⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 93

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 185, 30 Mehefin 2022

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 185, 30 Mehefin 2022

swyddfa neu rywle arall, felly efallai na fyddai'r data ynghylch hynny yn rhoi darlun cywir o'r hyn a ddaw o Gymru.²⁹

Safbwynt y Pwyllgor

34. Mae'r Pwyllgor yn nodi y gallai'r ffocws cynyddol ar ganlyniadau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol arwain at gynnydd mewn prisiau cynigion yn y tymor byr. Rydym yn pryderu y gall busnesau ymateb i'r costau cynyddol drwy leihau nifer y cyflogeion neu basio'r cynnydd ymlaen i'w cwsmeriaid. Er mwyn lliniaru hyn, mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gofynion ychwanegol a roddir ar fusnesau yn gymesur a bod yr arweiniad statudol perthnasol yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen i staff caffael a staff sy'n rheoli contractau yng Nghymru.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gofynion ychwanegol a roddir ar fusnesau mewn perthynas â'r ddyletswydd caffael yn gymesur er mwyn peidio â throsglwyddo unrhyw gostau cynyddol ymlaen i gwsmeriaid, a bod yr arweiniad statudol perthnasol yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen i staff caffael a staff sy'n rheoli contractau yng Nghymru.

35. Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd effaith y Bil ar economi Cymru yn dibynnu ar ymateb y sefydliadau hynny i'r cynnydd o ran costau. Mae'n bosibl y bydd rhai busnesau, yn y dyfodol, yn penderfynu peidio â gwneud cais am gontractau sy'n dod o dan y Bil, yn enwedig os yw cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i sector cyhoeddus Cymru yn cyfrif am ran gymharol fach o'u busnes. Rydym yn falch y bydd yr adolygiad ôl-weithredu yn cynnwys asesiad o effaith economaidd y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

36. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffocws cynyddol ar Waith Teg a gobeithiwn y bydd cyrff cyhoeddus a phreifat yn mabwysiadu'r cyflog byw gwirioneddol o ganlyniad i'r Bil hwn. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r ffigurau o ran nifer y bobl sy'n manteisio ar y cyflog byw gwirioneddol, o ganlyniad i'r Bil hwn, gael eu monitro a'u cynnwys yn yr adolygiad ôl-weithredu.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r adolygiad ôl-weithredu gynnwys nifer y cyrff cyhoeddus a'r cyrff preifat sy'n manteisio ar y cyflog byw gwirioneddol o ganlyniad i'r Bil hwn.

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 201, 30 Mehefin 2022

Rheoli contractau

37. Costau rheoli contractau adeiladu yw'r dyraniadau mwyaf arwyddocaol a wnaed yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gyda chostau blynyddol o £3.9 miliwn ar gyfer y sector cyhoeddus ac £1.3 miliwn ar gyfer y sector preifat dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd.³⁰

38. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodir y "gallai unrhyw gostau a ysgwyddir gan y sector preifat godi o ddisgwyliad uwch i gyflawni canlyniadau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol".³¹ Byddai enghreifftiau posibl yn cynnwys:

- defnyddio rhagor o ddeunyddiau sy'n cael eu caffael yn gynaliadwy;
- staff yn cael rhagor o hyfforddiant a gwell telerau ac amodau cyflogaeth;
- amser staff pan fyddant yn mynd i sesiynau hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol a allai fod ar gael drwy Busnes Cymru.³²

39. Bydd y sector preifat yn ysgwyddo costau rheolaidd ychwanegol ar gyfer rheoli adeiladu ac amcangyfrifir y daw'r costau hyn i £6.5 miliwn dros y cyfnod o bum mlynedd.³³

40. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Er mai'r amcanion tymor hir yw gwella contractau ar draws pob sector, mae'r Bil hwn yn canolbwyntio ar gontractau adeiladu mawr, gwerth dros £2m, ac mae'r amcangyfrifon o'r costau wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar hyn."*³⁴

41. Esboniodd y Dirprwy Weinidog fod yr amcangyfrifon costau wedi eu seilio ar gontractau dros £2 miliwn oherwydd bod cyfran fawr o arian cyhoeddus Cymru'n cael ei wario ar brosiectau adeiladu gyda chadwyni cyflenwi cymhleth iawn. Ychwanegodd swyddog y Dirprwy Weinidog:

"I think having some duties that focus attention particularly on construction and some statutory guidance that puts expectations in place for what people need to do will require more effort and time spent, but the benefits could be quite considerable in cost savings. ... But the extent of that is unknown, because some public bodies will be doing great contract management, and

³⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 147

³¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 100

³² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 100

³³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 52

³⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 104

*others not so good, and we really don't have a handle on the amount of time and effort spent on managing contracts across the board."*³⁵

42. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhagdybio y byddai'r sector cyhoeddus yn ysgwyddo 75 y cant o'r ffigur rheoli adeiladu am adnoddau rheoli contractau, ac y byddai'r sector preifat yn ysgwyddo 25 y cant.³⁶

43. Esboniodd y Dirprwy Weinidog mai'r sector cyhoeddus a fydd yn talu am y dyletswyddau yn y Bil i raddau helaeth ac mai dyna'r rheswm am y rhaniad. Awgrymodd swyddog y Dirprwy Weinidog fod y sector preifat eisoes yn rheoli contractau yn dda, a bod yn rhaid iddynt gyflogi pobl i gyflawni'r gwaith o reoli contractau, a bod eu busnesau'n dibynnu ar hynny. Fodd bynnag, o ran y sector cyhoeddus, dywedodd y swyddog:

*"...we do need to significantly increase the amount of resources spent doing some of that work. It can't all be done by just throwing it over the wall and expecting the business to come up with all of the answers; there will need to be further effort put in within the public sector. So, it was just really from talking to people who are active and who have a sense of where the gaps are. It might not be right, but it's the best we can do at this point."*³⁷

44. Pan ofynnwyd a fyddai'r costau hyn yn eithrio busnesau bach a chanolig yng Nghymru rhag cymryd rhan mewn caffael cyhoeddus, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"The key point...is around making sure we build in proportionality to make sure the clauses and the guidance can be applied proportionately through supply chains where outcomes are sustainable..."

*I think one thing that we will do too is, alongside the statutory guidance we've touched on, make sure that support is available specifically for SMEs who might wish to subcontract for major construction projects. We can do that via those kinds of networks and organisations that are already in place, such as Business Wales, and do things like events to meet the buyer, to make sure they are fully inclusive and have reached out."*³⁸

45. O ran manteision, dywedodd y Dirprwy Weinidog y bydd y ddyletswydd rheoli adeiladu yn anelu at sicrhau bod prosiectau nid yn unig yn cael eu cwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb, ond eu bod yn ddiogel, a bod y cymalau caffael cymdeithasol gyfrifol yn cael eu gwreiddio

³⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 191, 30 Mehefin 2022

³⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 105

³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 207, 30 Mehefin 2022

³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 30 Mehefin 2022

drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan, fel bod y modd y caiff hyn oll ei gyflawni yn cael ei fonitro hefyd. Roedd hi'n gobeithio y byddai'r ddyletswydd yn atal arferion anfoesegol, fel caethwasiaeth fodern, mewn cadwyni cyflenwi.³⁹

46. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai amrywiaeth o gefnogaeth i reoli contractau gan gynnwys arweiniad statudol, sesiynau ymwybyddiaeth a gweminarau. Dywedodd y byddai partneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid yn rhan o'r broses er mwyn sicrhau bod y bobl gywir yn cael y gefnogaeth gywir.⁴⁰

Safbwynt y Pwyllgor

47. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai costau rheoli contractau adeiladu yw'r dyraniadau mwyaf arwyddocaol yn y Bil, gan ganolbwyntio'n benodol ar gontractau adeiladu mawr sy'n werth dros £2 filiwn. Rydym yn pryderu y bydd y darpariaethau yn rhoi gofynion ychwanegol ar sefydliadau sy'n rheoli contractau ac, felly, costau ychwanegol. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd y ddyletswydd hon yn arwain at welliannau mewn contractau ar draws sectorau ac yn ceisio atal arferion anfoesegol, fel caethwasiaeth fodern, mewn cadwyni cyflenwi. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r gefnogaeth sydd ei hangen fod ar gael i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat drwy'r canllawiau statudol a Busnes Cymru.

48. Nid oes llawer o fanylion ar gael ynghylch gwir effaith y ddyletswydd hon ar fusnesau bach a chanolig. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn gallu cymryd rhan mewn caffael cyhoeddus, drwy sicrhau bod y canllawiau statudol yn cael eu defnyddio'n gymesur. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad pellach o effaith y ddyletswydd hon ar fusnesau bach a chanolig er mwyn deall y goblygiadau.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth yn benodol i fusnesau bach a chanolig i'w galluogi i gymryd rhan mewn contractau.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad pellach o'r modd y mae'r ddyletswydd rheoli contractau adeiladu yn effeithio ar fusnesau bach a chanolig.

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 211, 30 Mehefin 2022

⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 213, 30 Mehefin 2022

4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

49. Mae'r Memorandwm yn nodi mai'r diffiniad o "datblygu cynaliadwy" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015) yw'r "broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru". Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 2015 weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.⁴¹

50. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef "y pum ffordd o weithio" (hirdymor; atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys).⁴²

51. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud:

"Nod y Bil hwn yw ategu ac adeiladu ar y pum ffordd o weithio sy'n rhan o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, drwy gyflwyno egwyddor partneriaeth gymdeithasol fel ffordd hanfodol o weithio ar gyfer y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus."⁴³

52. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog nad yw'r Bil yn rhoi unrhyw rwymedigaethau ychwanegol ar gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol na'i swyddfa. Fodd bynnag, ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar Ddeddf 2015 er mwyn ceisio barn ar ymestyn y ddyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus a enwir yn Rhan 2 o'r Ddeddf. Y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnal yr adolygiad hwn.⁴⁴

53. Mae'r Memorandwm yn nodi y gallai fod goblygiadau ariannol i'r Comisiynydd pe bai'r rhestr o gyrff cyhoeddus sydd wedi'i chynnwys yn Neddf 2015 yn cael ei haddasu:

"Fodd bynnag os bydd y rhestr o gyrff cyhoeddus 'sydd o fewn y cwmpas' yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn newid ar ôl yr adolygiad ffurfiol, mae hyn yn debygol o arwain at oblygiad ariannol i'r

⁴¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 9

⁴² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 9

⁴³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 9

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 215, 30 Mehefin 2022

*Comisiynydd. Hyd nes y caiff adolygiad ffurfiol ei gynnal i bennu a oes newid i nifer y cyrff cyhoeddus sy'n destun y ddyletswydd ni allwn fesur y gost."*⁴⁵

54. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod unrhyw bryderon neu unrhyw oblygiadau o'r adolygiad hwnnw'n cael eu datrys.⁴⁶

55. Yn dilyn hynny, **ysgrifennodd** y Dirprwy Weinidog at y Pwyllgor i'w hysbysu bod yr ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi.⁴⁷

56. Mae'r Memorandwm yn tynnu sylw at y ffaith bod y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn ddyletswydd ar wahân y bwriedir iddi ategu'r ddyletswydd llesiant a'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn Neddf 2015. Mae'n dweud nad yw'n "newid rôl na chylch gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, na'r dyletswyddau ar yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf Llesiant".⁴⁸ O ran y Comisiynydd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ychwanegu nad oes bwriad:

*"Newid cwrpas y ddyletswydd ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion llesiant a bennwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni, ac felly ni fwriedir i'r Bil arwain at oblygiadau ariannol i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru."*⁴⁹

Canllawiau statudol

57. Mae'r Memorandwm yn tynnu sylw at y ffaith y bydd yn ofynnol i gyrff sy'n gwneud gwaith caffael rhagnodedig gyhoeddi adroddiadau blynyddol. Bydd angen i ganllawiau statudol ddiffinio cynnwys disgwylidig yr adroddiadau hyn, ac yn arbennig nodi pa ddata y dylai cyrff perthnasol eu casglu ac adrodd arnynt.⁵⁰

58. O ran y canllawiau statudol, mae'r Memorandwm yn nodi y byddai angen i sefydliadau ymgysylltu â'r Comisiynydd:

"Dylent hefyd gael eu datblygu i annog cymesuredd ac osgoi gosod gormod o faich gweinyddol, a rhan o hyn fydd ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd

⁴⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 80

⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 215, 30 Mehefin 2022

⁴⁷ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 5 Awst 2022

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 24

⁴⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 80

⁵⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 94

Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn symleiddio gofynion adrodd rhwng y Bil hwn a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015."⁵¹

59. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r broses adrodd flynyddol yn help mawr ar gyfer rhannu arferion da a chyfleoedd i gyrrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd.⁵²

60. Nododd swyddog y Dirprwy Weinidog y byddai'r ddyletswydd adrodd yn gymesur, felly pe bai corff bach nad oedd yn gwneud unrhyw waith caffael ar raddfa fawr yn ystod blwyddyn, ni fyddai angen iddo lunio adroddiad blynyddol yn ystod y flwyddyn honno, a nododd fod y Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau hynny.⁵³ Aeth ymlaen i ddweud:

*"All the bodies that have to comply with the well-being Act have to report, and we've made it clear that we want that reporting to be completely streamlined as regards procurement. There wouldn't be any additional work for bodies that are already doing that. So, those two things hopefully should keep the cost to a minimum for smaller bodies that aren't doing so much major procurement."*⁵⁴

61. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r ddyletswydd adrodd yn arwain at faich ariannol ychwanegol ar gyfer Archwilio Cymru. Dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog nad oedd Archwilio Cymru wedi mynegi pryder am hyn ond ei fod wedi gofyn i'r trefniadau adrodd a gynigir yn y Bil gael eu cysoni â fframweithiau eraill o ran adrodd ac atebolrwydd. Cadarnhaodd swyddog y Dirprwy Weinidog mai dyna oedd bwriad y Llywodraeth ac y byddai'n parhau i gael sgwrsiau ag Archwilio Cymru.⁵⁵

Adolygiad ôl-weithredu

62. Mae'r Memorandwm yn nodi y bydd yr adolygiad ôl-weithredu yn cynnwys "asesiad o effaith economaidd y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol".⁵⁶

63. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai proses werthuso barhaus wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu, a fydd yn caniatáu i'r Llywodraeth ddysgu a gwella.⁵⁷

64. Ychwanegodd swyddog y Dirprwy Weinidog y byddent yn ystyried data fel a ganlyn:

⁵¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 94

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 145, 30 Mehefin 2022

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 152, 30 Mehefin 2022

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 152, 30 Mehefin 2022

⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraffau 148 ac 149, 30 Mehefin 2022

⁵⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 93

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 156, 30 Mehefin 2022

*"...data we've been able to generate through these changes, what that has been able to tell us about the efficiency and the effectiveness of the system that we've put in place, how well procurement is or isn't working and how much may it improve as a result of these changes."*⁵⁸

65. Dywedodd swyddog y Dirprwy Weinidog eu bod yn ystyried paratoi adroddiad canol tymor yn ogystal â'r adroddiad gwerthuso pum mlynedd terfynol ond nad oedd hynny'n gwbl derfynol.⁵⁹

Safbwynt y Pwyllgor

66. Er ein bod yn nodi barn y Dirprwy Weinidog nad yw'r Bil yn rhoi unrhyw rwymedigaethau ychwanegol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol na'i swyddfa, rydym yn pryderu, pe bai'r adolygiad yn ehangu'r cyrff a gwmpesir gan Ddeddf 2015 ac y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r Bil hwn, y gallai hynny arwain at oblygiadau ariannol. Rydym yn falch o glywed bod y Dirprwy Weinidog yn gweithio gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod y Bil hwn yn cyd-fynd â'r adolygiad o Ddeddf 2015 ac y bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael sylw.

67. At hynny, bydd yn ofynnol i gyrff sy'n gwneud gwaith caffael rhagnodedig gyhoeddi adroddiadau blynyddol a bydd angen iddynt ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i symleiddio'r gofynion adrodd rhwng y Bil hwn a Deddf 2015. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai hyn arwain at gostau ychwanegol i'r Comisiynydd, ac felly dylid darparu cyllid digonol os bydd costau ychwanegol yn sgil y Bil hwn.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynglŷn â chanlyniad yr adolygiad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i bod yn rhoi manylion am unrhyw gyllid ychwanegol y bydd ei angen ar gyfer y Comisiynydd.

68. Mae'r Pwyllgor yn ategu ei farn ei bod yn arfer da cynnwys adolygiad ôl-weithredu cadarn, gan helpu i sicrhau bod amcanion deddfwriaeth yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau a dangos y cyflawnwyd gwerth am arian. Fel y nodwyd eisoes yn ein hadroddiad, Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)⁶⁰, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gynnwys adolygiad ôl-weithredu ar gyfer yr holl Filiau a osodir gerbron y Senedd fel mater o drefn. Mae'r Pwyllgor yn falch bod adolygiad ôl-weithredu wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. O ystyried prinder y data ynghylch canlyniadau a oedd ar gael cyn cyflwyno'r Bil i feintoli'r manteision, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid llunio adroddiad

⁵⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 226, 30 Mehefin 2022

⁵⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 226, 30 Mehefin 2022

⁶⁰ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

canol tymor yn ogystal â'r adroddiad gwerthuso pum mlynedd terfynol i fonitro cynnydd y ddeddfwriaeth hon.

Argymhelliad 11. O ystyried prinder y data sydd ar gael ynghylch canlyniadau ariannol y Bil ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi asesiad canol tymor yn amlinellu'r costau ariannol a ysgwyddwyd oherwydd bod y Bil wedi cael ei weithredu.